Cyngor Cymuned Y Bontnewydd
COFNODION CYFARFOD MISOL
3 Hydref 2013; 7.00 yh Y Ganolfan, Y Bontnewydd

PRESENNOL :
Cynghorwyr Erddyn Davies (Cadeirydd), Eddie Hughes, Gwyneth Thomas, Emyr Williams, Ifor D. Williams, Sioned Williams, Rhys Pugh, Geraint R. Jones a Dafydd Iwan.
Huw Llwyd Rowlands, Clerc

1. DATGAN DIDDORDEB / BUDDIANT PERSONOL
Dim.

2. YMDDIHEURIADAU
Dim.

3. CADARNHAU COFNODION Y CYFARFOD DIWETHAF
Cadarnhawyd.

Cynnig: Ifor D. Williams; Eilio: Eddie Hughes.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION

4.1 PROBLEMAU PARCIO LÔN GROES :
Cysylltwyd â pherchennog newydd Cartref Bontnewydd, ac er ei fod wedi cytuno'n anffurfiol i adael i rai o aelodau'r Capel barcio yno ar y Sul, nid oedd am golli darn o dir drwy wneud trefniant ffurfiol.

Penderfynwyd ail-ofyn i Dafydd Wyn Williams, Gyngor Gwynedd baratoi cynlluniau ac amcan gost, fel bod opsiynau parcio posib ar gael ar gyfer ystyriaeth bellach.

4.2 FFOSYDD RHOS-BACH AT CAE HOBSON:
Cafwyd cyfarfod safle gyda Ian Morgan, Peiriannydd Grŵp, Cyngor Gwynedd. Trafodwyd y gwahanol opsiynau. Roedd y Cyngor o'r farn fod gosod pibell yn anodd, ac y byddai clirio'r ffos a'i leinio gyda choncrid yn opsiwn gwell. Cytunwyd fod Cyngor Gwynedd i ysgrifennu at y clerc gan restru'r gwahanol opsiynau gydag eglurhad dros yr opsiwn a ffafrir gan Gyngor Gwynedd..

4.3 PARC Y PLWYF, LLANFAGLAN :
Gofynnwyd i North Wales Fencing fwrw ymlaen â'r gwaith . Bydd yn cymryd rhyw dair wythnos cyn iddynt ddechrau'r gwaith.

4.4 CYNGHRAIR CYMUNEDAU CYMRU:
Mae aelodaeth y Cyngor o'r gynghrair yn cael ei brosesu.

4.5 **CYFETHOL AELOD**
Cadarnhawyd mai un sedd wag sydd ar y Cyngor yn dilyn ymddiswyddiad Marian Roberts. Mae trefn benodol i'w dilyn, sydd yn cynnwys cysylltu â Swyddog Etholiadol Cyngor Gwynedd er mwyn gosod hysbysiad o'r bwriad i gyfethol. Yna os nad oes 10 person wedi gofyn am etholiad, gellir mynd ymlaen i hysbysebu a gofyn i rai sydd â diddordeb roi eu henwau ymlaen.

5. MATERION ARIANNOL

Cytunwyd i dalu Wyn Williams £135.00 am lanhau cysgodfannau bysiau Bontnewydd: Gorffennaf, Awst a Medi 2013 yn unol ag anfoneb rhif 1316.

6. CYNLLUNIO a MATERION CYFREITHIOL ERAILL

Dim ceisiadau cynllunio perthnasol na materion eraill i'w hadrodd.

7. GOHEBIAETH

7.1 SWYDDOG DATBLYGU NEWYDD GOGLEDD CYMRU UN LLAIS CYMRU
Derbyn er gwybodaeth.

7.2 ADRODDIAD PWYLLGOR CYMRU'R CYNGOR DEFNYDDWYR DŴR 2012-2013
Derbyn er gwybodaeth.

7.3 RHAGLEN AROLYGON ETHOLIADOL – COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU
Mae gofyniad ar y Comisiwn i gynnal arolwg o drefniadau etholiadol bob 10 mlynedd. Bydd y Comisiwn yn gwneud gorchymyn etholiadol newydd o ran Gwynedd cyn ymgynghori a rhoi cyfle i drafod sylwadau.

7.4 **CRYNODEB O ADRODDIAD CYNRYCHIOLYDD UN LLAIS CYMRU AR GRŴP CYFEIRIOL BUDD-DDEILIAID BETSI CADWALADR**
Derbyn er gwybodaeth.

8. MATERION ERAILL - GRANTIAU GWEFAN LLYWODRAETH CYMRU

Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn rhoi dyletswydd ar Gyngor Cymuned gyhoeddi gwybodaeth sylfaenol yn electronig.

Mae Llywodraeth Cymru yn rhoi grant o £500 ar gyfer hyn, ond ni fydd unrhyw arian pellach ar gyfer cynnal unrhyw adnodd electronig yn y dyfodol.

Gofynnwyd i'r clerc ymchwilio i'r posibiliadau o ran opsiynau a chost cyhoeddi'r wybodaeth yn electronig a sefydlu presenoldeb ar y we.

9. MATERION EITHRIEDIG
Dim mater eithriedig i'w drafod

10. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF : 7 TACHWEDD 2013, am 7yh.